**Cyngor Sir**
# Ddinbych

# Denbighshire
## County Council

At: **Aelodau'r Cabinet**

Dyddiad: 9 Ionawr 2006

Gofynnwch am: Alan Evans

Llinell Uniongyrchol: 01824 706060

e-bost: Alan.evans@denbighshire.gov.uk

Annwyl Syr / Fadam

Gofynnir i chi ddod i gyfarfod o'r **CABINET** sydd i'w gynnal yn **YSTAFELL GYNHADLEDD 1, NEUADD Y SIR, RHUTHUN, DDYDD MAWRTH, 17EG IONAWR, 2006 am 10.00a.m.**

Yr eiddoch yn gywir

I K Hearle
Clerc y Sir

**AGENDA**

Rhennir yr Agenda ar gyfer y cyfarfod yn ddwy ran. Trafodir eitemau Rhan I ym mhresenoldeb y Wasg a'r Cyhoedd oni bai bod yr Aelodau'n penderfynu gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd tra'n ystyried eitem oherwydd ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu iddynt fel arall. Fodd bynnag, pan fo eitemau yn Rhan II, argymhellir bod yr Aelodau yn gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd tra'n ystyried yr eitemau hynny, am y rhesymau a nodir uchod.

**YMDDIHEURIADAU**

**RHAN I**

**1 MATERION BRYS**

Rhybudd o eitemau y dylid ym marn y Cadeirydd eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol ag Adran 100(B)(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

**2 COFNODION**

Derbyn cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 20fed Rhagfyr 2005
(amgeuir copi)

Prif Weithredwr/Chief Executive Ian Miller MA (Oxon), FRSA
Swyddfeydd Y Cyngor/Council Offices, Rhuthun/Ruthin, Sir Ddinbych/Denbighshire LL15 1YN.
Ffôn/Tel (01824) 706234 Ffacs/Fax (01824) 707446

**3 RHAGLEN AROLWG ASEDAU**

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd J Thompson-Hill Aelod Arweiniol Eiddo a Rheolaeth Asedau (amgeuir copi).
Ceisio cymeradwyaeth i'r broses o resymoli asedau'r Cyngor yn ôl anghenion cyflwyno gwasanaethau.

**4 CYLLIDEB REFENIW TAI 2005 - 2006**

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd PA Dobb, Aelod Arweiniol Iechyd a Lles (amgeuir copi).
Diweddariad am sefyllfa Cyllideb Refeniw Tai am 2005 - 06

**5 CYLLIDEB REFENIW TAI 2006 - 2007**

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd PA Dobb, Aelod Arweiniol Iechyd a Lles (amgeuir copi).
Diweddariad am sefyllfa Cyllideb Refeniw Tai am 2006 - 07

**6 YMATEB SIR DDINBYCH I YMGYNGHORIAD LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU AR Y SETLAD REFENIW A CHYFALAF 3 BLYNEDD I AWDURDODAU LLEOL CYMRU**

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd PJ Marfleet, Aelod Arweiniol Cyllid a Phersonnel (amgeuir copi)
Ceisio cytundeb ar ymateb drafft yr Awdurdod i'r ymgynghoriad uchod gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar setlad refniw a chyfalaf tair blynedd.

**7 RHAGLEN WAITH Y CABINET AT Y DYFODOL**

Derbyn y Rhaglen Waith at y dyfodol.

**8 EITEMAU BRYS**

Ystyried unrhyw eitemau y mae'r Cadeirydd wedi penderfynu eu bod yn rhai brys (yn unol ag Adran 100(B)(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol,1972) ac y mae'u sylwedd wedi'i ddatgan dan eitem 1 uchod**.**

**GWAHARDD Y WASG A’R CYHOEDD**

Argymhellir dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 bod y Wasg a’r Cyhoedd yn cael eu gwahardd o’r cyfarfod tra’n ystyried yr eitemau busnes canlynol oherwydd ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu iddynt, fel a ddiffinnir ym Mharagraff 1 ac 8 o Rhan 1 o Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

**RHAN II**

Dim eitemau.

**AELODAU**

Y Cynghorydd S Davies
Y Cynghorydd P A Dobb
Y Cynghorydd E C Edwards
Y Cynghorydd M A German
Y Cynghorydd R W Hughes
Y Cynghorydd P J Marfleet
Y Cynghorydd D Owens
Y Cynghorydd S Roberts
Y Cynghorydd J Thompson Hill
Y Cynghorydd E W Williams

**COPIAU AT**
Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned